

PAMFFLEDYN PRIN YN DOD I'R GOLWIG

WRTH dwrio yn ddiweddar mewn siop lyfrau hynafiaethol deuthum ar draws pamffledyn diddorol a phrin.

Pamffledyn 'Neithior' wedi ei sgrifennu yn Gymraeg yn y flwyddyn 1872 ydyw, yn sôn am Thomas Hughes ac Eleanor Davies o ardal Cellan, yn — sylwer — Swydd Ceredigion. Roedd y pamffledyn ynghlwm ag *Antiquarian Rambles in the Lampeter Area*, Mason, Tenby, 1857. Pris y pamffledyn yn ei ddydd oedd 1/-, sef y swm oedd yn mynd tuag at briodas y pâr, ac roedd y darn hynafiaethol wedi ei briso'n 4c.

Mae'r pamffledyn o faint 5" x 7½" a'r argraffydd oedd J. Davies, Llanbedr.

Tybed a oes gan ddarllenwyr eraill *Y Casglwr* bamffledyn 'Neithior' sydd wedi goroesi? Braff fyddai cael gwybod gennych trwy'r *Casglwr*. Does dim diwedd ar beth sydd yn troi i fyny yn y siopau llyfrau hynafiaethol — dyna sy'n rhoi'r wefr i gasglwyr, onide?

Ceir llawer o wybodaeth am y neithior a thalu pwythion, ac am lawer o arferion gwerin eraill ynglŷn â phriodas, yn llyfr Catrin Stevens, *Arferion Caru*, a llyfrau Trefor Owen, *Welsh Folk Customs a The Customs and Traditions of the Welsh* (*Pocket Guide*).

J. MEURIG JONES (Swyddffynnon)

SWYDD CEREDIGION, Hydref 30ain, 1872.

GYFELLION HYNAWS,—

Gan ein bod yn bwriadu myned i'r Ystad briodasol, bwriadwn ym mhellach i gynal NEITHIOR, ar yr achlysur, ar ddydd Mercher y 13eg o Dachwedd, 1872, yn ty ein hunain, a elwir PENTREFELIN COTTAGE, plwyf Cellan; y pryd a'r lle y carem yn fawr eich gweld, a pha roddion bynag a weloch yn dda eu hestyn, a dderbynir yn ddiolchgar, ac a ad-delir yn ol, pryd bynag y gelwir am danynt.

Gan eich ufydd weision,

**Thomas Hughes,
Eleanor Davies.**

—:0:—

Mae y Mab ieuanc yng nghlud a'i Fam, Anne Hughes, Blaentwrch-ucha, yn galu pob pwythion dyledus iddynt hwy, gael eu dychwel, d i law y mab ieuanc ar y dydd uchod; a byddant yn ddiolchgar yng nghyd a'i Frodyr, a'i Chwaer, am bob rhoddion ychwanegol.

Hefyd,—y mae y Ferch ieuanc yng nghyd a'i Mham, Gwenllian Davies, Penllain, yn galu pob pwythion dyledus iddynt hwy, gael eu dychwelyd i'w llaw ar y dydd uchod; a byddant yn ddiolchgar yng nghyd a'i Brawd a'i Chwaer, Evan ac Elizabeth Davies, Penllain, am bob rhoddion ychwanegol.

J. DAVIS, ARGRAFFYDD, LLANBEDR.

LLYTHYR O'R SWYDDFA RYFEL . . . JAMES SAUVAGE A LLOYD GEORGE gan BOB OWEN, Dinbych

TUA dwy flynedd yn ôl, wedi imi gwblhau darlith Cymdeithas Kentigern yn Llyfrgell y Deon, Llanelwy, arhosodd nifer o'r aelodau ar ôl — rhai yn hen ffrindiau, eraill i drafod pwynt yn codi o'r ddarlith.

Yn eu plith yr oedd dwy wraig yn eu saithdegau ac yr oedd yn amlwg eu bod yn chwiorydd. Gofynnodd un ohonynt a oeddwn yn adnabod y diweddar Barchedig John Morris Jones, Dinbych (1879-1961) a oedd yn ei amser yn weinidog ordeiniedig gyda'r Annibynwyr yn Nyffryn Clwyd, yn olygydd ac yn is-olygydd *Y Faner*, yn Brif Demlwr Cymru ac yn Faer Dinbych (1933-35). Fe sylweddolais ar unwaith mai dwy nith i John Morris Jones oeddnt ac yn ferched i'r ddiweddar Mrs Pickwell, hanner chwaer i'r Parchedig ac yn Faeres iddo yn ystod ei faerolaeth.

Ar hynny, rhoesant imi ddau gerdyn post o'r Ttemplwr Da yn Ninbych, llyfr poced yn cynnwys nodiadau, anerchiadau a phregethau, ac amlen wedi ei chyfeirio at olygydd *Y Faner*. Ynddi roedd y llythyr canlynol:

War Office
Gorph. 14eg 1916

At Olygydd y Faner,

Darllenais gyda dyddordeb yn y Faner ddiweddar am daith Prof. James Sauvage i lanau'r môr Tawellog. Yr ydwyf wedi bod er ys 35ain mlwydd yn un o edmygwyr mwyaf James Sauvage, nid yn unig am ei lais periaidd, nid ychwaith yn gubl am y dull trydanol y taslai ei enaid i'r gân ond am weithred o garedigrwydd ddadguddiodd i mi unwaith ei yspryd llariaidd.

Tua pymtheng mlynedd ar hugain yn ôl ef oedd y prif ganwr yn Eisteddfod Criccieth. Ar ôl swyno y miloedd ddaeth o'r mynyddoedd i wrandaw arno, daeth gyda mi am gupanaid o de. Pan ddeallodd nas

gallai fy mam ddod i'r eisteddfod yn herwydd afiechyd canodd iddi holl ganeuon y rhaglen gyda'r 'encores' ie a canodd hwy gyda'r un egni ag awch a phe buasai torfeydd yn ei wrandaw. Y fath bleser roddodd hyn i fy hen fam anweyl. Byth er hynny y mae gennyf gongl gymnes yn fy nghalon i'r cerddor entwog.

Hir oes iddo yn y dyffrynoedd euraidd ar lanau'r môr Tawellog ydyw dymuniad

eich ffyddlawen,
D. Lloyd George.

Rhyfeddol ydi meddwl sut y cafodd Lloyd George yr amser i ysgrifennu'r fath epistol ac yntau newydd ei benodi'n Ysgrifennydd Rhyfel (Gorff. 6ed, 1916) wedi cyfnod prysur iawn fel Gweinidog Arfau, ac o fewn ychydig fisoedd (Rhagfyr 1916) cyn ei benodi'n Brif Weinidog. Diddorol hefyd yw sylweddoli ei fod yn neilltuo amser i ddarllen *Y Faner*.

Efallai mai'r peth mwyaf

YMYL Y DDALEN gan D.W.W.

NI chafodd Siôn Rhydderch (m. 1735) na'r sylw na'r clod a haedda. Rhwng 1715 a 1728 argraffodd ugeiniau o gerddi'r beirdd; yn 1725 cyhoeddodd *Geirlyfr*, a thair blynedd wedi hynny daeth ei waith pwysicaf o'r wasg, sef *Grammadeg Cymraeg*.

Argraffai Siôn Rhydderch gerddi'r beirdd fesul dwy a thair gan roi iddynt deitlau fel 'Dwy o Gerddi Duwioi . . .' neu 'Tair o Gerddi Newyddion . . .'. Diflannodd llawer o'r cyhoeddiadau hyn ac yn sicr ni lynodd cymaint ag un ohonynt wrth fy mysedd i!

Hyfrydwch yw nodi, fodd bynnag, fod gennyf gopiau o'r ddwy gyfrol a nodwyd. Mae'r *Geirlyfr* yn llyfr bach swmpus ac ynddo restr ddiddorol o danysgrifwyr. Credaf mai perchennog cyntaf y gyfrol yw'r sawl a ysgrifennodd y cofnod hwn ar un o'r tudalennau glân ar ei ddechrau: 'George ye son of Mr Peter Hope & Grace his wife Bapt. Ap. ye 4th'. Gwaetha'r modd nid ychwanegwyd blwyddyn y bedydd.

Bu'r *Grammadeg* yn werslyfr o bwys i sawl prydydd. Anodd credu fod llyfr bach mor arbenigol ei gynnwys wedi dwyn elw i'r awdur. Un a brynodd gopi oedd Tobias Thomas o Fiwmares. Rhoddodd ei enw ar frig wyneb-ddalen fy nghopi i gan ychwanegu'r sylw, 'Tobias Thomas's Book 1742' ar dudalen arall. Rhywdro wedi hynny rhoddodd y gyfrol i gyfaill: 'Rhodd Tobeias Tomos y Saer melina a cherttwenni or Bewmares i Richard Williams. At hyn tarodd yr englyn hwn ar glawr:

*Cais deg ramadeg rym ochraeth—wyech hylant
A chalynt ahratawaeth,
Y Doethion mwyonion Er maeth
Dewis Gadween Dysgeidiaeth.*

O droi i gofrestr eglwys blwyf Biwmares gwelir cofnod yn 1737 am fedydd plentyn i Dobias Thomas a'i wraig.

arwyddocaol yn y llythyr arbennig yma yw'r tynerwech (braidd yn annisgwyl) a amlygir.

* * * *

Ganed James Sauvage, y canwt entwog, yn Rhosllannerchrugog yn y flwyddyn 1850. Aeth i'r Unol Daleithiau pan oedd yn un ar bymtheg oed ac yno roedd dan ddylanwad Llew Llwyfo. Daeth i'r amlwg yn Eisteddfod Genedlaethol 1874 ac aeth wedyn i'r Academi Frenhinol i astudio cerddoriaeth dan yr enwog Randegger. Dechreuodd ei yrfa fel tenor ond datblygodd fel bariton byd-entwog ac yn aelod blaenllaw o Gwmni Opera Carl Rosa.